Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**11 Ionawr 2024**

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu 2023-25: Archwiliad o Heddlu Dyfed-Powys**

Mewn ymateb i archwiliad PEEL diwethaf Heddlu Dyfed-Powys (2022), dywedais fy mod i’n dawel fy meddwl bod yr Heddlu’n symud i’r cyfeiriad cywir o dan arweinyddiaeth y Prif Gwnstabl Dr Richard Lewis, a oedd yn newydd i’r swydd ar y pryd. Gan hynny, yr oedd yn siomedig gweld peth o’r adborth llai ffafriol o fewn yr adroddiad archwiliad diweddaraf hwn. Roedd yr heriau y tynnwyd sylw atynt o fewn y maes bregusrwydd yn peri pryder neilltuol imi, o ystyried bod hyn yn cynnwys un o flaenoriaethau’r Prif Gwnstabl. Mae’n amlwg o’m goruchwyliaeth fod y gofyniad i wella’n ganlyniad cefnogaeth, ffocws ac adnoddau annigonol gan y sefydliad yn gyffredinol, ac nid oherwydd diffyg gweithredu neu ymdrech gan y rhai sy’n arwain ac yn gweithio yn y maes busnes. Fodd bynnag, yr wyf yn fodlon bod camau pwysig wedi’u cymryd a dal yn cael eu cymryd tuag at union hyn ers y cyfnod gwaith maes archwiliad.

Fe’m calonogwyd gan arferion addawol yn cael eu hadnabod mewn perthynas â defnydd yr Heddlu o ddata i reoli a deall ei gyllid. Mae hyn yn dod yn gynyddol bwysig – tra bod yr adroddiad yn awgrymu bod yr Heddlu mewn sefyllfa ariannol iach, ni ellir tanbrisio’r heriau parhaus ar gyfer sicrhau fod hyn yn parhau.

Ers cyhoeddi’r adroddiad archwiliad, yr wyf wedi derbyn adroddiad cynhwysfawr gan y Prif Gwnstabl yn manylu’r gwaith sy’n cael ei wneud er mwyn mynd i’r afael â’r holl feysydd ar gyfer gwella a nodwyd gan Arolygiaeth Ei Fawrhydi.

1. ***Mae angen i’r Heddlu wella cofnodi ar sail resymol ar gyfer stopio a chwilio, a sicrhau bod swyddogion yn deall ymagwedd yr Heddlu tuag at wella perfformiad***

Yr wyf wedi cael gwybod bod yr Heddlu wedi gwella ei hyfforddiant o ran stopio a chwilio, ac wedi atgyfnerthu ei graffu mewnol o gofnodion stopio a chwilio. Mae’r Heddlu’n sicrhau bod manylion adolygiadau’n cael eu cipio a’u hystyried yn y grŵp Defnydd Moesegol o Bwerau’r Heddlu mewnol. Lle mae diffyg sail wedi’i gofnodi, rhoddir adborth yn uniongyrchol i’r swyddog cyflwyno. Mae proses ddwysáu hefyd mewn grym pe bai swyddogion yn parhau i gofnodi sail annigonol wrth gynnal prosesau chwilio.

Mae fy swyddfa’n parhau i oruchwylio’r defnydd o stopio a chwilio drwy fynd i’r grŵp Defnydd Moesegol o Bwerau’r Heddlu, hap samplu annibynnol a gynhelir gan fy Mhanel Sicrhau Ansawdd gwirfoddol, a dadansoddi data gan fy staff. Yr wyf hefyd yn trafod y mater yn uniongyrchol â’r Prif Gwnstabl.

2. ***Dylai’r Heddlu ddatblygu panel craffu allanol annibynnol ar y defnydd o rym***

Yn y gorffennol, mae fy swyddfa wedi ymgymryd â nifer o ymarferion craffu mewn perthynas â’r defnydd o rym, gan gynnwys craffu dwys a hap samplu. Dros y blynyddoedd, yn gadarnhaol, mae fy Mhanel Sicrhau Ansawdd wedi derbyn galwadau cynyddol i adolygu amrediad ehangach o ryngweithiadau rhwng yr heddlu a’r cyhoedd. O’r herwydd, bu’n rhaid i’m swyddfa gymryd ymagwedd sy’n seiliedig ar risg tuag at amserlennu er mwyn sicrhau bod y ffocws yn cael ei osod ar feysydd lle mae’r pryder mwyaf a lle gall adborth gael y dylanwad mwyaf. Ar ôl i sawl hap sampl beidio â nodi unrhyw bryderon sylweddol gydag ymddygiad swyddogion a materion sy’n codi dro ar ôl tro mewn perthynas â materion gweinyddol, dadflaenoriaethwyd hap samplu rheolaidd o ddigwyddiadau defnydd o rym er mwyn caniatáu capasiti ar gyfer canolbwyntio ar faterion eraill. Fodd bynnag, cynhaliodd y Panel hap sampl ym mis Rhagfyr 2023, a bydd y canlyniadau’n cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan maes o law.

Yr wyf ar ddeall bod y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol hefyd yn bwriadu hap samplu digwyddiadau defnydd o rym yr heddlu yn y dyfodol agos. Bydd hyn yn gwella ac yn ategu gweithgarwch presennol, ac, yn hollbwysig, yn dod â golwg mwy amrywiol i graffu a goruchwylio.

Yr wyf wedi ceisio sicrwydd gan y Prif Gwnstabl bod dysgu drwy graffu allanol yn cael ei rannu’n briodol ar draws yr Heddlu. Yr wyf yn bwriadu gwirio a phrofi bod hyn yn gweithio’n briodol yn y misoedd i ddod.

3. ***Dylai’r Heddlu gynyddu amlygrwydd a hygyrchedd timoedd plismona bro a lleihau’r graddau i ba rai y maent yn cael eu harallgyfeirio i ddyletswyddau eraill***

   ***ac***

4. ***Mae angen i’r Heddlu wella’r ffordd y mae’n cyfathrebu â phobl leol***

Mae hyn yn rhywbeth yr wyf wedi’i hyrwyddo’n barhaus ers y tro cyntaf imi gael fy ethol, gan annog y Prif Gwnstabl i sicrhau bod timoedd bro’n amlwg ac yn adnabyddus i’w cymunedau. O’r herwydd, hwylusais gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled yr ardal Heddlu yn ystod y gwanwyn yn 2023, gan ddwyn cynrychiolwyr cymunedol lleol a thimoedd bro at ei gilydd. Yn ymateb y Prif Gwnstabl imi ynghylch yr adroddiad archwiliad hwn, awgrymwyd y gallai dealltwriaeth swyddogion o’r hyn yw dyletswyddau eraill ‘gwirioneddol’ ac achosion o gael eu harallgyfeirio i ymgymryd ag ymgysylltu cymunedol o gwmpas digwyddiadau tyngedfennol amrywio.

Deallaf y bydd arweinwyr uwch yn ailsefydlu monitro data dyletswyddau eraill wrth i’r arfau perfformiad gofynnol gael eu hailadeiladu ar ôl i’r Heddlu symud i’r Cwmwl a’r system rheoli cofnodion Niche.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Yr wyf hefyd yn ymwybodol y gofynnir i swyddogion gofnodi gweithgarwch ymgysylltu cymunedol ar system fewnol. Yn ogystal, yn ddiweddar, cyflwynodd y Prif Gwnstabl adrodd am amser swyddogion sy'n cael ei dreulio tu allan i'r orsaf. Er nad yw hyn yn nodi pa ddyletswyddau sy'n cael eu cynnal, mae'n darparu mesur sylfaenol i asesu'r cyfleoedd i swyddogion fod yn amlwg a rhagweithiol yn eu cymunedau. Yr wyf yn cael gweld y data hwn drwy fy nghyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu cyhoeddus chwarterol. Wrth i ddata dyletswyddau eraill ddod ar gael, byddaf yn gofyn i'r Prif Gwnstabl roi manylion am unrhyw effeithiau andwyol ar blismona cymunedol, a pha gamau mae'n cymryd i fynd i'r afael â'r rhain lle mae angen.

Mae'r Prif Gwnstabl wedi adrodd y bydd Strategaeth Atal Trosedd newydd yr Heddlu'n cael ei chyflwyno'r mis hwn ac y bydd Cynllun Gwella Bro'n cael ei ddatblygu maes o law. Yr wyf hefyd ar ddeall y bydd yr Heddlu'n gweithio ar ddatblygu ymagwedd gydlynol tuag at nodi blaenoriaethau cymunedol. Bydd fy swyddfa'n gweithio gyda'r Heddlu i sicrhau bod Cynllun Heddlu a Throseddu Tymor 4 yn ystyried y datblygiadau hyn a bod ein sefydliadau'n cydweithio er mwyn adlewyrchu'n briodol ar flaenoriaethau cymunedol lleol.

5. ***Mae angen i'r Heddlu leihau nifer y galwadau difrys y mae galwyr yn rhoi'r gorau iddynt***

   ***a***

6. ***Dylai'r Heddlu adolygu'r ddealltwriaeth o berygl a galw o fewn yr ystafell reoli ac effeithiolrwydd yr ymateb i ddigwyddiadau***

Mae Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ar draws yr Heddlu ar gyfer lleihau galw 101 i alluogi Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu i ymateb i nifer cynyddol a chymhlethdod y galwadau am wasanaeth a dderbynnir. Mae'r Heddlu hefyd yn disgwyl i feddalwedd rheoli cysylltiadau cwsmeriaid newydd gael ei gweithredu. Disgwylir i'r feddalwedd hon wella rheoli galw, a thrwy hynny, lleihau nifer y galwadau y rhoddir y gorau iddynt. Mae'n siomedig fod gweithredu wedi'i ohirio dro ar ôl tro – yr wyf wedi cael gwybod mai'r dyddiad disgwyliedig presennol ar gyfer mynd yn fyw yw mis Mai 2024. Byddaf yn ceisio diweddariad gan y Prif Gwnstabl dros y misoedd i ddod er mwyn sicrhau bod hyn mewn grym cyn yr haf, pan fydd y galw ar yr Heddlu ar ei fwyaf.

Er bod gan y Ganolfan Gyfathrebu drefn rheoli perfformiad sydd wedi'i datblygu'n dda, cydnabyddir bod angen datblygu dealltwriaeth o alw. Mae'r Heddlu wrthi'n ymgynghori ynghylch model gweithredu diwygiedig, a allai weld buddsoddi mewn gallu dadansoddol o fewn y Ganolfan, a ddylai fynd i'r afael â'r angen ar gyfer gwell modelu galw.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

### 7. *Nid yw Heddlu Dyfed-Powys yn sicrhau canlyniadau priodol ar gyfer dioddefwyr yn gyson*

Mae’r Prif Gwnstabl wedi fy sicrhau bod gwelliant yn y maes hwn yn cael ei hybu a’i drafod mewn Cyfarfod Perfformiad Dioddefwyr misol, sy’n cael ei gadeirio gan Brif Swyddog. Creffir ar berfformiad ym mhob agwedd o wasanaeth Heddlu Dyfed-Powys i ddioddefwyr, yn dilyn y chwe philer a fabwysiadwyd o’r fframwaith Asesu Gwasanaeth Dioddefwyr. Creffir ar ganlyniadau, gyda ffocws arbennig ar 15 (anawsterau tystiolaethol), 16 (y dioddefydd yn tynnu ei gefnogaeth yn ôl) a 18 (ymchwiliad wedi’i gwblhau, ni nodwyd drwgdybyn).

Mae gwaith yn mynd rhagddo drwy adolygiad yr Heddlu o’r model gweithredu i sefydlu tîm canolog ar gyfer cofnodi troseddau yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf. Disgwylir y bydd hyn yn gwella safonau cofnodi troseddau ac yn mynd i’r afael â recordio gormodol, sydd ag effaith negyddol ar gyfraddau canlyniadau cyffredinol.

### 8. *Dylai’r Heddlu sicrhau bod cytundeb dioddefydd wedi’i gwblhau lle bo’n briodol*

Mae fy swyddfa’n parhau i weithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol yn lleol a ledled Cymru er mwyn sefydlu mecanwaith ar gyfer adolygu cydymffurfiaeth y system gyfan â’r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd. Mae rhan o’r gydymffurfiaeth hon yn cynnwys cwblhau’r cytundeb dioddefydd, sy’n agwedd bwysig o sicrhau bod dioddefwyr yn cael dweud eu dweud o ran sut a phryd yr hoffent gael gwybod am gynnydd â’u hachos. Adroddir yn gyson bod hwn yn faes bodlonrwydd is ymysg dioddefwyr yn ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Mae’r Prif Gwnstabl wedi adrodd bod y trawsnewidiad i’r system rheoli troseddau Niche wedi cyflwyno rhai heriau o ran cyflawni ymagwedd gyson tuag at gofnodi anghenion dioddefwyr a diweddariadau. Mae hap samplu mewnol yn edrych ar nodi materion yn y meysydd hyn, sydd yna’n cael eu hadrodd wrth Gyfarfod Perfformiad Dioddefwyr yr Heddlu ar gyfer craffu a dysgu.

Bydd fy swyddfa’n parhau i weithio gyda’r Heddlu i fonitro cynnydd yn y maes pwysig hwn a sicrhau bod dioddefwyr yn teimlo eu bod nhw’n cael eu cefnogi.

### 9. *Rhaid i’r Heddlu sicrhau bod pob digwyddiad sy’n gysylltiedig â cham-drin domestig yn cael ei asesu’n briodol ar gyfer risg*

Mae’n siomedig y bu’n rhaid penderfynu atal adolygiadau eilaidd o asesiadau risg safonol o ganlyniad i ddiffyg adnoddau’n cael eu rhoi i’r Ganolfan Fregusrwydd. Rwy’n falch bod ffocws o’r newydd erbyn hyn ar flaenoriaeth y Prif Gwnstabl i ddileu cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu, â’r blaenoriaethu cymesur o adnoddau. Yr wyf wedi fy sicrhau bod adolygiad amserol yn awr o bob adroddiad cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu. Mae arian hefyd wedi’i bennu i ailsefydlu datrysiad roboteg a aflonyddwyd gan weithredu Niche.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Er mwyn sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cynnal yn briodol gan swyddogion unigol, mae’r Heddlu wedi cyflwyno hyfforddiant y disgwylir iddo ddod i ben ym mis Chwefror 2024. Byddaf yn ceisio diweddariad gan y Prif Gwnstabl ar ôl y dyddiad hwn i geisio sicrwydd ynghylch effaith yr hyfforddiant.

***10. Dylai’r Heddlu sicrhau bod pob swyddog, yn arbennig y rhai mewn rolau arbenigol, wedi’u hyfforddi’n briodol i gyflawni eu dyletswyddau***

Yr wyf wedi cael gwybod bod rhaglenni hyfforddi ar gyfer yr Uned Asesu Risg Eilaidd a’r Uned Ymateb Rhithiwr i Gam-drin Domestig wedi’u llunio. Mae rhaglen ar gyfer Swyddogion Cam-drin Domestig, a fydd yn cael ei chyflwyno yn 2024, yn cael ei llunio. Bydd fy swyddfa’n monitro cyflwyno’r rhaglen drwy ddiweddariadau a dderbynnir yng nghyfarfodydd mewnol yr Heddlu drwy gydol y flwyddyn.

***11. Dylai’r Heddlu wella’r ffordd mae’n llywodraethu, monitro perfformiad ac archwilio bregusrwydd er mwyn gwarchod pobl fregus yn effeithiol***

Cyflwynodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwella Bregusrwydd yn ystod haf 2023 er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau gweithredu allweddol. Mae cynrychiolydd o’m swyddfa’n mynd yn gyson er mwyn cael gwybod am ddatblygiadau, yn ogystal â thrafod ffyrdd y gall fy swyddfa gefnogi gwelliannau drwy hap samplu ac ymgysylltu â dioddefwyr.

Mae cyfres gynhwysfawr o fesurau cam-drin domestig wedi’i chyflwyno i’w chynnwys mewn dangosfwrdd perfformiad a gaiff ei gyhoeddi’n gynnar eleni. Yn y cyfamser, defnyddir pecyn briffio data i fonitro set penodol o wybodaeth. Yn ogystal, mae trefn archwilio cam-drin domestig newydd yn cael ei lansio. Byddaf yn gofyn i’r Prif Gwnstabl sicrhau bod fy swyddfa’n cael y newyddion diweddaraf am ganlyniadau’r archwiliadau hyn wrth iddynt gael eu hadrodd.

***12. Dylai’r Heddlu sicrhau ei fod yn cwblhau asesiadau risg o droseddwyr rhyw cofrestredig yn brydlon ac yn unol ag arfer gorau cenedlaethol***

Yr wyf wedi fy sicrhau gan yr Heddlu ei fod bob amser yn anelu i gwblhau asesiadau risg mewn modd amserol a bod yr achosion a adolygwyd gan yr Arolygiaeth o’r adeg pan oedd mesurau Covid mewn grym. Mae’r Heddlu’n adrodd ei fod yn cynnal diwrnodau datblygiad proffesiynol rheolaidd ar gyfer rheolwyr troseddwyr ac yn monitro cydymffurfiaeth drwy broses archwilio sydd wedi ymwreiddio’n dda.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

### *13. Rhaid i'r Heddlu gydbwyso'r angen gweithredol â chefnogi lles ei swyddogion a'i staff*

Mae'r Prif Gwnstabl yn adrodd bod comanderiaid Ardaloedd Plismona Lleol yn cynnwys trafodaethau ynghylch lles yn ystod diwrnodau tîm i ffwrdd. Mae gan yr Adran Ymchwiliadau Troseddol arweinwyr lles penodol ac fe wnaeth gynnal cyfres o ddigwyddiadau lles ledled yr ardal Heddlu yn ystod yr hydref gyda chymorth yr Uned Iechyd Galwedigaethol. Mae swyddogion newydd sy'n fyfyrwyr yn derbyn mewnbwn gan yr Uned Iechyd Galwedigaethol a Chydlynydd Iechyd Meddwl yr Heddlu yn ystod eu cwrs cynefino. Yn ogystal, mae lles yn cael ei wau drwy'r holl gyrsiau hyfforddi ac o fewn cyrsiau arweinyddiaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau rheolwyr llinell a'r cymorth sydd ar gael iddyn nhw a'u timoedd.

Yr wyf wedi fy sicrhau bod yr Heddlu hefyd yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn erbyn argymhelliad sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â chymorth lles rhagweithiol ar gyfer personél mewn swyddi lle mae llawer iawn o bwysau.

Mae adolygiad o Fodel Gweithredu'r Heddlu fel rhan o ail flwyddyn rhaglen arbedion effeithlonrwydd Adolygiad yr Heddlu'n cael ei lunio gan adborth swyddogion a staff mewn perthynas â lefelau adnoddau ymateb. Mae fy swyddfa'n mynd i Fwrdd Rhaglen Adolygiad yr Heddlu er mwyn cynnal goruchwyliaeth o ddatblygiadau. Rwy'n derbyn diweddariadau rheolaidd gan yr adran Gwasanaethau Pobl drwy fy nghyfarfodydd Bwrdd Plismona, lle yr wyf wedi talu sylw arbennig i brosesau cynllunio'r gweithlu'r Heddlu. Byddaf yn edrych i'r Prif Gwnstabl maes o law i roi manylion am yr effaith y mae disgwyl i unrhyw newidiadau gael ar y gweithlu. Byddaf hefyd yn ceisio sicrwydd ynghylch gallu'r Heddlu i barhau i gyflawni'r amcanion a nodir yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu. Bydd fy swyddfa'n sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i hysbysu Cynllun Heddlu a Throseddu Tymor 4 a Chynlluniau Ariannol Tymor Canolig yn y dyfodol.

### *14. Rhaid i'r Heddlu sicrhau bod gan oruchwylwyr yr hyfforddiant a'r sgiliau gofynnol i gyflawni eu rôl*

Mae ymateb cynhwysfawr y Prif Gwnstabl i'r adroddiad archwiliad yn nodi bod yr Heddlu'n mabwysiadu rhaglenni 5 lefel arweinyddiaeth y Coleg Plismona. Mae lefelau 1 a 2 eisoes wedi'u lansio. Cynigir cyfres o weithdai datblygiad proffesiynol i oruchwylwyr, â'r rhai mewn meysydd perygl uwch yn derbyn blaenoriaeth. Trefnwyd bod cwrs Rhingyll Heddlu gweithredol yn cael ei gyflwyno'r mis hwn er mwyn ategu prosesau bwrdd dyrchafu. Mae'r Heddlu'n bwriadu ailadrodd hyn ar gyfer Arolygwyr. Byddaf yn ceisio sicrwydd gan y Prif Gwnstabl yn rheolaidd am gyflwyniad, ymgysylltiad ac effaith y cynlluniau hyn.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

***15. Rhaid i'r Heddlu ystyried ei broses adolygu datblygiad personol i sicrhau ei bod yn effeithiol ac yn cael ei gwerthfawrogi gan swyddogion a staff***

Mae'r Heddlu'n treialu proses paru talent/datblygiad ar gyfer unigolion sy'n ceisio tystiolaeth ddatblygiadol ar gyfer byrddau dyrchafu. Mae'r broses hon yn paru anghenion datblygu sgiliau unigol â darnau o waith a nodir gan Benaethiaid Adran. Yn ogystal, mae'r Heddlu wedi treialu a chytuno ar gyflwyno'r Proffil Asesu Datblygiad yn lle ffurflenni cais ar gyfer prosesau dyrchafu Rhingylliaid Heddlu. Mae'r Heddlu'n bwriadu archwilio sut y gellir ehangu hyn i gynnwys swyddi staff heddlu gwag. Mae'r Heddlu'n disgwyl y bydd y datblygiadau hyn a'r defnydd o raddau Proffil Asesu Datblygiad Safon Datblygiad Cyflog yn gwella cymorth swyddogion a staff ar gyfer y broses Proffil Asesu Datblygiad. Rwy'n derbyn diweddariadau ar gwblhau'r Proffil Asesu Datblygiad drwy ddiweddariadau Gwasanaethau Pobl rheolaidd yn fy nghyfarfodydd Bwrdd Plismona.

***16. Dylai'r Heddlu sicrhau fod ganddo brosesau llywodraethu effeithiol i gefnogi ei fframwaith perfformiad***

Mae'r Prif Gwnstabl wedi rhoi ymateb cynhwysfawr imi i'r maes penodol hwn ar gyfer gwella. Mae'n rhoi manylion am rwydwaith strwythuredig o gyfarfodydd llywodraethu wedi'u llunio i fewnosod a chefnogi rheoli perfformiad drwy'r sefydliad. Mae fy swyddfa'n gweithio'n agos â Phennaeth Uned Gwella Gwasanaeth yr Heddlu er mwyn sicrhau bod mecanweithiau priodol mewn grym i adrodd ar berfformiad yr Heddlu yn erbyn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu.

***17. Dylai'r Heddlu sicrhau ei fod yn deall sut mae ei fuddsoddiad mewn systemau TG yn gwella cynhyrchiant***

Yr wyf wedi cael gwybod bod gan yr Heddlu Fframwaith Buddion, sy'n sefydlu'r sail ar gyfer yr egwyddorion a'r ymagweddau tuag at reoli buddion a gwella cynhyrchiant. Mae'r Fframwaith yn rhan o'r broses achos busnes a reolir gan y Grŵp Newid a Thrawsnewid. Fe'i defnyddir i sicrhau bod buddion yn cael eu cofnodi, olrhain ac adrodd gan yr adran gyflwyno. Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau bod y broses yn glir ac ymarferol ar gyfer y rhai sy'n ei defnyddio. Mae cynrychiolydd o'm swyddfa'n mynd i gyfarfodydd y Grŵp Newid a Thrawsnewid er mwyn sicrhau goruchwyliaeth o'i brosiectau a'u heffaith.

O dan bob un o'r meysydd ar gyfer gwella, yr wyf wedi nodi'r hyn rwy'n bwriadu ei wneud i oruchwylio cynnydd yr Heddlu. Defnyddir gwybodaeth a gesglir yn y broses gan fy swyddfa i hysbysu datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu nesaf er mwyn sicrhau ffocws parhaus ar y meysydd y mae mwyaf angen eu gwella.